

CYNGOR CYMUNED BODORGAN COMMUNITY COUNCIL.

**Cofnodion Cyfarfod Misol y Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yn yr Hen Ysgol,
Bodorgan ar Nos Fawrth, 17eg MAWRTH 2026 am 7.05yh.**

**Minutes of the Council's Monthly Meeting held at the Old School, Bodorgan on
Tuesday, 17th MARCH 2026 at 7.05pm.**

1	<p>YN BRESENNOL oedd: Y Cynghorwyr Mr Andrew Hughes (Cadeirydd), Mr Tim Owen, Mrs Pat Dobbie, Mr Bryan Owen, Ms Sharon Barton, Mr Les Thomas, Mr Gary Evans a Mr J Alun Foulkes (Clerc).</p> <p>Cynghorydd Sirol Mr John Ifan Jones.</p>	<p>PRESENT was: Councillors Mr Andrew Hughes (Chair), Mr Tim Owen, Mrs Pat Dobbie, Mr Bryan Owen, Ms Sharon Barton, Mr Les Thomas, Mr Gary Evans a Mr J Alun Foulkes (Clerk).</p> <p>County Councillor Mr John Ifan Jones.</p>
2	<p>YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB Derbyniwyd Ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth:</p> <p>Cynghorwyr Mr Alan Smith, Mr Myfyr Davies &</p> <p>Cynghorydd Sirol Mr Arfon Wyn.</p>	<p>APOLOGIES FOR ABSENCE</p> <p>APOLOGIES for absence received from:</p> <p>Cllrs Mr Alan Smith, Mr Myfyr Davies & County Cllr Mr Arfon Wyn.</p>
3	<p>Croeso: Croesawyd y Cynghorwyr ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Yna talodd deyrnged i'r cyn-Gynghorydd a Chadeirydd y Cyngor Cymuned, Mr Dafydd Jones a fu farw ddechrau mis Chwefror. Diolchwyd iddo am ei waith aruthrol a'i gyfraniad i'r Gymuned. Yna safodd yr aelodau am funud o dawelwch fel arwydd o barch.</p>	<p>Welcome: Councillors and members of the public were welcomed to the meeting by the Chairman. He then paid tribute to former Cllr and Chair of the Community Council, Mr Dafydd Jones who had died in early February. He was thanked for his tremendous work and contribution to the Community. Members then stood for a minute silence as a mark of respect.</p>
4	<p>Datgan unrhyw diddordeb personal a/neu rhagfarnol</p> <p>Datganodd y Cynghorydd Mrs Pat Dobbie fuddiant personol a oedd yn rhagfarnllyd wrth drafod y sedd wag a gadawodd yr ystafell. Ni chymerodd unrhyw ran yn y</p>	<p>To declare any personal and/or prejudicial interest.</p> <p>Cllr Mrs Pat Dobbie declared a personal interest that was prejudicial when discussing the vacant seat and duly left the room. She took no part in</p>

	drafodaeth a/neu'r penderfyniad a wnaed gan y Cyngor.	the discussion and/or the decision made by Council.
5	Cynghrair Bro Aberffraw.	Bro Aberffraw Alliance.
	<p>Croesawyd Sara Spinks a'i chydweithiwr i'r cyfarfod er mwyn rhannu gwybodaeth ddiweddaraf i'r Cynghorwyr a chynnydd y Gynghrair. Crëwyd Ap Cymunedol newydd a darparwyd cyllid trwy Grant Perthyn i archwilio astudiaeth ddichonoldeb o sefydlu gwasanaeth Trafnidiaeth Gymunedol yn y ward. Cyflawnwyd hyn oherwydd digon o ymatebion i holiadur a ddsbarthwyd a'i ddychwelyd a oedd yn cydymffurfio ag amodau'r grant. Byddant nawr yn symud ymlaen i Gam 2 y broses i ganfod beth sydd ei angen mewn gwirionedd ac mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gefnogol iawn cyn belled nad yw'n gwrthdaro â dulliau trafndiaeth eraill yn yr ardal. Efallai y gallai'r Cyngor Cymuned weithio mewn partneriaeth a chysylltu â symud yr Gwarchodfa Bws ym Methel. Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol y Gynghrair ar 1af Mehefin 2026. Llongyfarchodd y Cynghorydd Mr Bryan Owen am yr holl waith caled sy'n cael ei wneud gan y Gynghrair ac adleisiodd yr holl Gynghorwyr eraill y teimlad yma. Diolchodd y Cadeirydd i'r ddau ohonynt am fynychu a rhannu'r wybodaeth gyda'r Cyngor.</p>	<p>Both Sara Spinks and her colleague were welcomed to the meeting to provide Cllrs with an update and progress of the Alliance. A new Community App has been created and funding via the Perthyn Grant had been provided to explore a feasibility study of setting up a Community Transport service in the ward. This was achieved due to sufficient responses to a questionnaire circulated and returned that complied with the grant conditions. They will now move on to Stage 2 of the process to ascertain what is actually needed and the IOACC are very supportive providing it does not clash with other modes of transport in the area. Perhaps the Community Council could work in partnership and link in with moving the Bus Stop in Bethel. The Alliance AGM will be held on the 1st June 2026. Cllr Mr Bryan Owen congratulated all the hard work being carried out by the Alliance and all the other Cllrs echoed this sentiment. The Chair thanked both of them for attending and sharing the information with the Council.</p>
6	Cywiro, Cadarnhau & Derbyn Cofnodion Cyfarfod Llawn 20.1.2026	Correct, Confirm & Accept Minutes of the Full Council Meeting held 20.1.2026
	Cynigiwyd (TO) ac eiliwyd (LT) y dylid cymeradwyo a llofnodi'r cofnodion fel rhai cywir. Cytunwyd yn unfrydol a'u llofnodi gan y Cadeirydd.	Proposed (TO) and Seconded (LT) that the minutes be approved and signed as correct. Agreed unanimously and signed by the Chair.
7	Sêd Gwag – Ward Trefdraeth.	Vacant Seat – Trefdraeth Ward.
	Cadarnhaodd y Clerc fod hysbysiad cyntaf o'r broses a ddechreuodd ar Ddydd Gwener, 23 Ionawr 2026 wedi dod i ben heb i Swyddog Canlyniadau'r Awdurdod dderbyn cais ysgrifenedig am etholiad gan	The Clerk confirmed that the first notice of the process that began on Friday, 23 rd January 2026 ended with NO written request for an election was received by the Returning Officer of the Authority from TEN persons who are registered

	<p>DDEG o bobl sydd wedi'u cofrestru fel etholwyr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal etholiadol lle mae'r sedd wag wedi codi. O ganlyniad, cyhoeddwyd ail gam y broses (Hysbysiad Cyfethol) gyda dyddiad cau o 6 Mawrth 2026 i unrhyw un sy'n dymuno cael ei ystyried i lenwi'r sedd wag. Roedd DAU berson (Mr Gwyn Lewis a Mr Neil Moir) wedi dangos diddordeb ac wedi anfon gohebiaeth i'r Clerc. Roedd y DDAU ohonynt yn bresennol yn yr ystafell. Gwnaed cynnig gan y Cynghorydd Mr Bryan Owen ac eiliwyd gan y Cynghorydd Mr Les Thomas i eithrio'r wasg a'r cyhoedd a'r ddau ymgeisydd cyn bwrw ymlaen. Pasiwyd hyn yn unfrydol. Darllenodd y Clerc gynnwys y ceisiadau ysgrifenedig i'r aelodau a chyfwelwyd â'r ddau ymgeisydd ar wahân. Rhoddwyd cyfle iddynt ychwanegu unrhyw sylwadau pellach yr oeddent yn dymuno eu gwneud. Ar ôl ystyried yr holl gyflwyniadau ysgrifenedig a llafar yn ofalus, cyfetholwyd Mr Gwyn Lewis i'r Cyngor a lofnododd ei ddatganiad swydd yn briodol ac i ymrwymo i gadw at y cod ymddygiad. Yna gwahoddwyd y wasg a'r cyhoedd yn ôl i'r ystafell.</p>	<p>as local government electors for the electoral area in which the vacancy has occurred. As a result, the second phase of process (Co-option Notice) had been published with a deadline of the 6th March 2026 for anyone wishing to be considered to fill the vacant seat. TWO persons (Mr Gwyn Lewis & Mr Neil Moir) had submitted correspondence to the Clerk and who were present in the room. A resolution was made by Cllr Mr Bryan Owen & seconded by Cllr Mr Les Thomas to exclude the press and public and the two candidates before proceeding and this was passed unanimously. The Clerk provided members with the contents of the written applications and both candidates were interviewed separately and were given the opportunity to add any further comments they wished to make. After careful consideration to all the written and verbal submissions, Mr Gwyn Lewis was co-opted on to Council who duly signed his declaration of office and to undertake to observe the code of conduct. The press and public were then invited back into the room.</p>
<p>8</p>	<p>Cynllun Taith Llesol rhwng Malltraeth & Niwbwrch. Rhoddodd y Cynghorydd Sir Mr John Ifan Jones adroddiad byr i'r Cyngor a dywedodd ei fod ychydig yn anhapus gyda rhai o'r gwelliannau a wnaed rhwng llwybr y Cob a Maes Parcio Coedwig Niwbwrch. Yn dilyn trafodaeth gyffredinol, gofynnodd y Cynghorwyr ystyriaeth o godi arwyddion i ddynodi Cob Malltraeth ac i ostwng y terfyn cyflymder i 40mya yn ogystal â phaentio llinellau melyn dwbl i atal parcio ar ochr y ffordd ar ymylon y glaswellt. Yn dilyn datganiad a wnaed gan y Cynghorydd Jones yn y cyfarfod diwethaf, cadarnhaodd y Clerc nad yw'r Cyngor Cymuned wedi derbyn unrhyw lythyr eto gyda chynnig i fabwysiadu'r meinciau ac unrhyw blanhigion blodau er mwyn</p>	<p>Active Travel Scheme between Malltraeth & Newborough. County Cllr Mr John Ifan Jones provided Council with a brief report and that he was a little unhappy with some of the amendments carried out between the Cob path and the Newborough Forest Car Park. Following a general discussion, Cllrs requested that signage to designate the Cob Malltraeth be erected and to reduce the speed limit to 40mph in addition to paint Double Yellow lines to prevent road side parking on the grass verges. Following a statement made by Cllr Jones at the last meeting, the Clerk confirmed that the Community Council has not yet received any letter with an offer to adopt the benches and any flower planters in order to add to the Community Council's Insurance policy. Cllr Jones agreed that he would follow this matter</p>

	ychwanegu at bolisi Yswiriant y Cyngor Cymuned. Cytunodd y Cynghorydd Jones y byddai'n dilyn y mater hwn i fyny. Diolchodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Jones am ei holl waith a oedd ynghlwm â'r prosiect hwn.	up. The Chair thanked Cllr Jones for all his work involved in this project.
9	Gorsaf Rheilffordd Bodorgan. Nid oedd unrhyw ddiweddariad na adroddiad pellach ar gael.	Bodorgan Railway Station. No further update or report was available.
10	Llwybr Feisdon Cadarnhaodd y Cadeirydd fod Cyngor Sir Ynys Môn wedi cytuno i ddarparu'r gataiau mochyn. Roedd y Clerc wedi derbyn dyfynbris o £480.00 gan Mr Antony Thomas am y gwaith o godi'r gataiau. Cynigiwyd ac eiliwyd (TO/BO) i dderbyn y dyfynbris.	Feisdon Path The Chair confirmed that the IOACC have agreed to provide the kissing gates. The Clerk had received a quotation of £480.00 from Mr Antony Thomas for the works to erect the gates. Proposed & Seconded (TO/BO) to accept the quote.
11	Biliau I'w Dalu Cynnig & Eilio (TO/BO) i wneud y taliadau canlynol ac fe cytunwyd yn unfrydol.	Bills for Payment. Proposed & Seconded (TO/BO) to make the following payments and this was approved unanimously.
11.1.1	Cyflog Clerc Mawrth 2026 £386.40	Clerk Salary March 2026 £386.40
11.1.2	Cyflog Clerc Ebrill 2026 £386.40	Clerk Salary February 2026 £386.40
11.1.3	Cyflog Clerc Mai 2026 £386.40	Clerk Salary March 2026 £386.40
11.1.4	Rhoddd Canolfan Hen Ysgol Bodorgan (s133) £750.00	Donation – Canolfan Hen Ysgol Bodorgan (s133) £750.00
11.1.5	Defib Store – Padiâu Difibriliwr £462.00	Defib Store – Defib Replacement Pads £462.00
11.1.6	Anglesey Computer Solutions – Costau Gwefan £218.00	Anglesey Computer Solutions – Website Costs £218.00
11.1.7	Cyng Mrs Pat Dobbie – Planhigion £17.21	Cllr Pat Dobbie – Flower Plants £17.21
11.2	Incwm	Income
11.2.1	Rhent Rhandiroedd - £241.00	Allotment Rents - £241.00
11.2.2	Cymorthdal Claddu Plant - £236.63	Child Burial Contribution - £236.63
11.2.3	Cymorthdal Costau Llwybrau - £500.00	Footpath Costs Reimbursement - £500.00
11.2.4	Llog Banc - £22.96	Bank Interest - £22.96
11.3	Cysoni Banc: 28.2.2026	Bank Reconciliation: 28.2.2026
11.3.1	Cyfrif Cyffredol - £4,643.54	Current Account - £4,643.54
11.3.2	Cyfrif Cadw - £15,225.50	Reserve Account - £15,225.50

12	Rhoddion	Donations
	Cadarnhaodd y Clerc a nodwyd bod llythyrau wedi dod i law gan Capel Bethel, Canolfan Hen Ysgol Bodorgan ac Ambiwylans Awyr Cymru yn diolch am y rhoddion a wnaed iddynt gan y Cyngor Cymuned.	The Clerk confirmed and it was noted that letters had been received from Capel Bethel, Canolfan Hen Ysgol Bodorgan and Wales Air Ambulance thanking for the donations made to them by the Community Council.
13	Adroddiad Archwiliad Allanol 2024/25	External Audit Report 2024/2025
	Hysbysodd y Clerc y Cyngor nad oedd wedi derbyn canfyddiadau ac adroddiad terfynol yr archwiliad allanol ar gyfer y flwyddyn ariannol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2025 eto. Cytunwyd i ganiatáu i'r Clerc ddilyn y mater hwn i fyny gydag Archwilio Cymru.	The Clerk informed Council that he had not yet received the final external audit findings and report for the financial year ending 31 st March 2025. Agreed to allow the Clerk to follow this matter up with Audit Wales.
14	Mandad Banc & Bancio Ar-Lein	Bank Mandate & Online Banking
	Bydd y Clerc yn cysylltu â'r Banc cyn gynted â phosib i fynd i'r afael â mater llofnodwyr awdurdodedig er mwyn caniatáu i'r Cyngor gydymffurfio wrth wneud taliadau ar-lein.	The Clerk will contact the Bank as soon as possible to address the issue of authorized signatories to allow the Council to become compliant when making online payments.
15	Ceisiadau Cynllunio Newydd	New Planning Applications
15.1	Cais llawn ar gyfer dymchwel yr adeilad allanol presennol a chodi adeilad allanol newydd i'w ddefnyddio fel ystafell gemau a storfa yn ogystal ag addasu ac ehangu'r garej bresennol, codi dau dwnnel polythen, creu llyn ac estyniad i'r cwrtil preswyl yn: Dewis Dyddyn, Bethel – FPL/2025/257 – DIM SYLWADAU ond nodir fod gwaith eisoes wedi cychwyn yn dymchwel a chlirio'r adeilad allanol presennol.	Full application for the demolition of the existing outbuilding and the erection of a new outbuilding for use as a games room and storage together with alterations and extensions to the existing garage, the erection of two poly tunnels, the creation of a pond and an extension to the residential curtilage at: Dewis Dyddyn, Bethel – FPL/2025/257 – NO OBSERVATIONS, however, it was noted that demolition works and clearance of the existing building had started.
15.2	Cais llawn Addasu ac ehangu yn: Wayside, Hermon – HHP/2026/41 – DIM SYLWADAU.	Full application to Alter & Extend at: Wayside, Hermon – HHP/2026/41 – NO OBSERVATIONS.
16	PENDERFYNIADAU CYNLLUNIO.	PLANNING DECISIONS.
	Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw lloches cae yn: Aberhocwn, Hermon – FPL/2025/275 – GWRTHODWYD.	Retrospective application for the retention of a field shelter at: Aberhocwn, Hermon – FPL/2025/275 – REFUSED.

17	GOHEBIAETH	CORRESPONDENCE
17.1	Datganiad CSYM ar ymgynghoriad ar-lein (Ailgylchu a Gwastraff) a agorodd ar y 7fed Ionawr 2026 gan gynnwys gwybodaeth ar nifer o sesiynau galw heibio a gynhelir mewn llyfrgelloedd ar draws yr Ynys.	IOACC statement on the Recycling & Waste online consultation that opened on the 7 th January 2026 including information on a number of drop-in sessions taking place at libraries across the Island.
17.2	Cofnodion Fforwm Cyngor Tref a Chymuned o'r cyfarfod Hybrid a gynhaliwyd ar 4 Chwefror 2026.	Town & Community Council Forum Minutes of the Hybrid meeting held on the 4 th February 2026.
17.3	Rhaglen Pwyllgor Gwaith CSYM sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng Mawrth a Hydref 2026.	IOACC Executive Committee programme covering the period between March & October 2026.
17.4	Gŵyl Teithiau Cerdded Ynys Ynys Môn – cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghanolfan Fusnes Ynys Môn yn Llangefni ar Ddydd Mercher, 11 Mawrth 2026 er mwyn adfywio'r digwyddiad.	Isle of Anglesey Festival of Walks – meeting held at the Anglesey Business Centre in Llangefni on Wednesday, 11th March 2026 in order to revive the event.
17.5	Datganiad ac ymgynghoriad CSYM sydd wedi dechrau ar y papur Gweledigaeth, Amcanion ac Opsiynau ynghyd â'r Aseiad Cynaliadwyedd Integredig fel rhan o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn – dyddiad cau – 25 Mawrth 2026.	IOACC statement and consultation that has commenced on the Vision, Objectives & Options paper along with the Integrated Sustainability Appraisal as part of the new Local Development Plan preparation for Anglesey – closing date – 25 th March 2026.
17.6	Datganiad i'r Wasg CSYM dyddiedig 27 Chwefror 2026 yn gwneud cynnydd ar wella safonau tai ar yr Ynys a chynyddu dyraniadau lleol.	IOACC Press Release dated 27 th February 2026 making progress on improving housing standards on the Island and increasing local allocations.
17.7	Datganiad i'r Wasg Cyngor Sir Ynys Môn dyddiedig 6 Mawrth 2026 – Mae cynnydd o 5.1% yn y Gyllideb a Threth y Cyngor wedi'i gymeradwyo er mwyn cynnal lefel y gwasanaethau hanfodol.	IOACC Press Release dated 6 th March 2026 – Budget and Council Tax increase of 5.1% has been approved in order to maintain the level of essential services.
18	Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – 12.5.2026	Date of Next Meeting – 12.5.2026
	Heb unrhyw fusnes pellach i'w drafod, diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc a'r Cynghorwyr am eu gwaith a'u presenoldeb a datganodd fod y cyfarfod wedi dod i ben am 8:15pm.	With no further business to conduct, the Chair thanked the Clerk and Councillors for their work and attendance and declared the meeting closed at 8:15pm.

Arwyddo/Sign Cadeirydd/Chair Dyddiad/Date.